# Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar
## nos Lun 20fed o Fehefin 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Evans, Geraint Evans, Arwel Pierce

Yr oedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Alan H Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 30 Mai 2022:

Adroddwyd bod amcan bris wedi ei dderbyn am dorri'r gwrych yn y cael chwarae gyda Flail - sef £50.

Nodwyd bod angen anfonebu'r Clwb Pêl-droed am y defnir o'r Pafiliwn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
I dderbyn yr amcan bris i dorri'r gwrychoedd.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101795 | £191.86 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101796 | £47.80 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd nad oedd yr un cais wedi ei dderbyn yn datgan diddordeb mewn rhedeg y clwb ieuenctid yn dilyn hysbyseb yn Dail Dysynni.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I roi hysbyseb ar dudalen Facebook Bryncrug
I holi'r Outward Bound Trust os ydynt efo diddordeb cynnal ambell weithgaredd.

6. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - rhaglen waith Mehefin 2022:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Nid oedd dim i'w nodi

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Cae Chwarae - Glanhau'r Pafiliwn:

**PENDERFYNIAD:** I drefnu bod Scrubadub yn glanhau'r Pafiliwn, sef y toiledau, ystafelloedd newid a'r gegin - tu mewn yn unig.
I roi rhybudd i'r Clwb Pêl-droed yn gofyn iddynt symud eu hoffer o'r Pafiliwn.

9. Cae Chwarae - Adolygu'r ffi am ddefnydd o'r Pafiliwn:

**PENDERFYNIAD:** I godi'r ffi i £40 o 1af o Orffennaf ymlaen, oherwydd bod y cyngor yn gyfrifol am dalu am y trydan.

I hysbysu'r Clwb Pêl-droed am y ffi newydd.

10. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Wedi derbyn ymholiadau gan etholwyr am dorri gwair – rhai yn awyddus i weld y gwair yn cael ei dorri yn fyr a rhai eraill yn dymuno gweld y gwair yn cael ei adael i dyfu er lles bywyd gwyllt
-Cytundeb Cyngor Gwynedd am wneud gwaith lladd chwyn yn cael ei ail-hysbysebu, gyda dyddiad cau o 22ain o Fehefin
-Wedi cyfarfod Mabon ap Gwynfor AS, Jo Whitehead (Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd) a Mark Polin (Cadeirydd y Bwrdd Iechyd) yn Ysbyty Tywyn, ynghyd a chynghorwyr sir eraill sydd yn cynrychioli wardiau yn ardal Dysynni. Adroddwyd bod y bwrdd iechyd yn cael trafferthion recriwtio meddygon a bod y bwrdd iechyd yn edrych ar recriwtio nyrsys ymarferwyr. Cafwyd wybod hefyd bod y bwrdd yn edrych ar recriwtio meddygon sydd yn arbenigo mewn meysydd penodol a bod cleifion ar hyn o bryd yn profi'n anodd cael apwyntiad, gyda nifer o alwadau ffôn ddim yn cael eu hateb gan staff y feddygfa. Nodwyd bod y fferyllfa ddosbarthu wedi cau a bod diffygion yn y drefn cyfathrebu rhwng y feddygfa a'r fferyllfa yn Nhywyn. Adroddwyd y bydd Cynghorwyr Sir yn cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd eto ar 7fed o Orffennaf er mwyn edrych ar eu cynlluniau dros y chwe mis nesaf a bod grŵp ymgynghorol ar gyfer cleifion wedi ei sefydlu, ac nid oedd y cynghorydd ar y grŵp ymgynghorol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:38pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................